

Prisiwr

Cyflwyniad

Mae priswyr yn asesu gwerth adeiladau, tir neu nwyddau eraill megis peirannau a chelf. Gallent weithio i un o amrywiaeth o sefydliadau gan gynnwys gwerthwyr tai, y Gwasanaeth Sifil neu lywodraeth leol.

Adwaenir hefyd fel

- Amcangyfrifwr - Eiddo
- Syrfêwr, Prisiwr
- Syrfêwr Arfer Cyffredinol
- Syrfêwr Priso



Gweithgareddau Gwaith

Fel Prisiwr, byddwch yn asesu gwerth adeiladau, tir ac amrywiaeth eang o nwyddau, er enghraifft offer, peiriannau, teclynnau a gwaith celf. Bydd y rheswm dros brisio, a'ch union ddyletswyddau, yn dibynnu ar eich cyflogwr. Er enghraifft, mae gwerthwyr tai yn cyflogi Prisiwr i asesu eiddo i'w gwerthu neu eu rhentu, neu i asesu gwerth morgais. Defnyddir prisiadau i gyfrifo'r trethi y mae angen eu talu ar eiddo, yn ogystal â phris eiddo neu dir pan gaiff ei werthu neu ei brynu. Mae priswyr hefyd yn cynghori Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi ac adrannau eraill o'r llywodraeth ynghylch materion treth a phrisio. Fel Prisiwr, efallai y byddwch hefyd yn asesu gwerth rhentu eiddo masnachol a diwydiannol, er enghraifft swyddfeydd, canolfannau siopa a ffatrioedd. Byddwch yn asesu eiddo newydd ac yn ailasesu eiddo presennol ar ôl iddo gael ei ddiwygio neu ei wella. Efallai y byddwch yn arbenigo mewn offer a pheiriannau neu gelfyddyd gain a theclynnau, yn hytrach na thir ac eiddo. Mae hyn fel arfer at ddibenion yswiriant. Mae priso fel arfer yn cael ei gyfuno â rolau eraill, er enghraifft rheoli ystadau neu dirfesur amaethyddol ac arwerthu. Yn aml, mae'r gwaith o brisio celfyddyd gain a theclynnau yn benodol yn cael ei gyfuno ag arwerthu. Mae'n bosibl y bydd y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg o fantais i chi wrth chwilio am waith yng Nghymru.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I fod yn brisiwr, bydd angen i chi:

- feddu ar sgiliau mathemateg a TGCh da
- gallu cyfrifo'n gywir
- gwybod y diweddaraf am yr holl gyfreithiau a'r dechnoleg berthnasol sy'n gysylltiedig â'ch maes gwaith
- bod yn berson trefnus
- meddu ar sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da

Efallai y bydd angen i chi deithio'n lleol yn y swydd hon, felly byddai trwydded yrru'n ddefnyddiol.

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog Cyfraddau cyflog bras yw'r cyfraddau isod.

- Cyflog cychwynnol: £23,500-£26,000
- Gyda phrofiad: £28,000-£31,500
- Mae Uwch Briswyr yn ennill £35,000 - £40,000

Oriau gwaith Mae'r rhan fwyaf o briswyr yn gweithio tua 35-40 awr yr wythnos, a hynny o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i chi ddechrau'n gynnar a gorffen yn hwyr, yn ogystal â gweithio ar benwythnosau weithiau. **Ble y gallwn weithio?** Mae cyflogwyr yn cynnwys asiantau tai, y Gwasanaeth Sifil, llywodraeth leol, cyrff cyhoeddus a sefydliadau megis cwmnïau trydan, nwy a dwr. Mae yna gyfleoedd ar gyfer Prisiwr gyda chyflogwyr mewn trefi a dinasoedd ar hyd a lled y DU. **Ble y mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?** Mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mewn papurau newydd lleol/cenedlaethol, ar wefannau recriwtio a gwefannau cyflogwyr, ac ar wefan Paru Swyddi Ar-lein (Universal Jobmatch) (www.gov.uk/jobsearch). Mae gwefannau

cyfryngau cymdeithasol, er enghraifft LinkedIn, Twitter neu Facebook, yn ffordd wych o rwydweithio, dod o hyd i swyddi, a chysylltu â darpar gyflogwyr. Sicrhewch fod eich proffil yn eich cyflwyno mewn modd proffesiynol a fydd yn apelio at ddarpar gyflogwyr. Darllenwch ein herthygl Gwybodaeth Gyffredinol 'Chwilio am Swyddi Ar-lein'.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad

Mae gradd gan y rhan fwyaf o bobl sy'n newydd i'r yrfa hon. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn ymuno heb radd ac yn hyfforddi'n rhan-amser neu trwy ddysgu o bell.

Er mwyn priso eiddo, fe'ch anogir i ymuno â chorff proffesiynol megis Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig neu'r Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw.

Bydd pynciau gradd sy'n gysylltiedig â phrisio, rheoli ystadau neu dirfesur yn ddefnyddiol ar gyfer pobl sy'n dymuno dechrau yn yr yrfa hon.

Mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig yn darparu rhestr o gyrsiau gradd/diploma achrededig.

Mae rhai pobl yn dechrau mewn swyddi is trwy Brentisiaeth Lefel Uwch mewn Tirfesur.

Hyfforddiant

Ar gyfer y bobl nad ydynt yn raddedigion, fel y nodir uchod, bydd hyfforddiant yn y gwaith gan astudio'n rhan-amser.

Gall priswyr weithio hefyd tuag at y cymwysterau a gynigir gan y Sefydliad Ardrethu a Phrisio Refeniw.

I ddod yn aelod cwbl gymwysedig o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, bydd angen i chi ymgymryd ag o leiaf dwy flynedd o ddysgu strwythuredig wrth weithio. Rhoddir statws siartredig i aelodau cyflawn o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Dyma'r lefel hyfedredd uchaf posib mewn proffesiwn.

Cynnydd

Gall Priswyr profiadol symud i rolau uwch. Gall rhai ddod yn hunangyflogedig.

Cymwysterau

I ddechrau Uwch Brentisiaeth, bydd arnoch angen fel arfer 5 TGAU gradd C/4 neu uwch, neu fod wedi cyflawni Prentisiaeth Lefel Ganolradd. I gael lle ar Brentisiaeth Gradd, bydd arnoch angen o leiaf 2 Safon Uwch fel arfer. Ar gyfer mynediad at radd berthnasol, bydd arnoch angen fel arfer:

- 2/3 cymwysterau Safon Uwch
- TGAU gradd C/4 neu uwch yn eich pynciau safon uwch.
- 2/3 TGAU arall gradd C/4 neu uwch, gan gynnwys Saesneg a mathemateg.

Mae cymwysterau eraill yn aml yn dderbyniol yn lle safonau uwch, er enghraifft:

- cymwysterau BTEC lefel 3
- Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol

Fodd bynnag, mae'r gofynion yn wahanol ar gyfer cyrsiau gwahanol, felly darllenwch wefannau'r colegau/prifysgolion yn ofalus iawn. Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth ag 1 Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Cyfyngiadau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad osod cyfyngiadau oedran ar gyfer mynediad i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, oni bai y gall ddangos bod gwir angen am y cyfyngiadau hyn.

Sgiliau/profiad

Gallai sgiliau a enillwyd mewn meysydd gwaith megis eiddo neu gelfyddyd gain fod yn ddefnyddiol.

Gall hwyrdyfiaid wneud cynnydd fel aelodau technegol o Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig.

Cyrsiau

Os nad oes gennych y cymwysterau angenrheidiol i gael mynediad at y cwrs gradd neu HND o'ch dewis, gallai cwrs Mynediad mewn coleg neu brifysgol fod y ffordd i mewn.

Mae'r cyrsiau hyn wedi'u dylunio ar gyfer pobl nad ydynt wedi dilyn y llwybr arferol i addysg uwch. Nid oes angen cymwysterau ffurfiol fel arfer, ond dylech wirio hyn â cholegau unigol.

Mae Prifysgol Napier Caeredin yn cynnig gradd mewn Datblygu a Phrisio Eiddo, trwy astudio'n rhan-amser.

Mae nifer o sefydliadau'n cynnig cymwysterau ôl-raddedig perthnasol mewn tîrfesur a rheoli eiddo tiriog trwy ddysgu o bell.

Mae rhai pobl yn dechrau mewn swyddi is trwy Brentisiaeth Lefel Uwch mewn Tîrfesur.

Ystadegau

- Mae 10% o briswyr yn hunangyflogedig.
- Mae 9% yn gweithio'n rhan-amser.
- Mae gan 12% oriau hyblyg.

Gwybodaeth Bellach

Sefydliadau proffesiynol Mae gan sefydliadau proffesiynol y rolau canlynol:

- Cefnogi'u haelodau.
- Amddiffyn y cyhoedd trwy gadw safonau'n uchel yn eu proffesiynau.

Y prif sefydliad proffesiynol ar gyfer syrfewyr yw RICS.

Cysylltiadau

- **Chartered Institute of Building (CIOB)**
Cyfeiriad Englemere, Kings Ride, Ascot, Berkshire SL5 7TB
Ffôn 01344 630700
E-bost reception@ciob.org.uk
Gwefan www.ciob.org.uk
- **Christie's Education**
Cyfeiriad 153 Great Titchfield Street, London W1W 5BD
Ffôn 020 7665 4350
E-bost education@christies.com
Gwefan www.christieseducation.com
- **Sotheby's Institute of Art**
Cyfeiriad 30 Bedford Square, Bloomsbury, London WC1B 3EE
Ffôn 020 7462 3232
E-bost info@sothebysinstitute.com
Gwefan www.sothebysinstitute.com
- **Asset Skills**
Facilities management, housing, property, planning, cleaning and parking
Cyfeiriad 2 The Courtyard, 48 New North Road, Exeter EX4 4EP
Ffôn 0800 0567160
E-bost info@assetskills.org
Gwefan www.assetskills.org
- **Royal Institution of Chartered Surveyors (RICS)**
Cyfeiriad RICS HQ, Parliament Square, London SW1P 3AD

Ffôn 0870 3331600
E-bost contactrics@rics.org
Gwefan www.rics.org

- **Awarding Body for the Built Environment (ABBE)**
Cyfeiriad Birmingham City University, Perry Barr, Birmingham B42 2SU
Ffôn 0121 3315174
E-bost abbeenquiries@bcu.ac.uk
Gwefan www.abbega.co.uk
- **Asset Skills Scotland**
Scottish enquiries
Cyfeiriad Bank Street, Aberfeldy, Perthshire PH15 2BB
Ffôn 0844 8731018 or 01887 829171
E-bost scotland@assetskills.org
Gwefan www.assetskills.org
- **Royal Institution of Chartered Surveyors (RICS) Scotland**
Scottish enquiries
Cyfeiriad 9 Manor Place, Edinburgh EH3 7DN
Ffôn 0131 2257078
E-bost scotland@rics.org
Gwefan www.rics.org
- **Find Your Way**
Publisher: Asset Skills
Ffôn 0845 6782888
E-bost findyourway@assetskills.org
Gwefan www.findyourway.co.uk
- **College of Estate Management (CEM)**
Cyfeiriad Whiteknights, Reading, Berkshire RG6 6AW
Ffôn 0800 0199697
E-bost courses@cem.ac.uk
Gwefan www.cem.ac.uk
- **Institute of Revenues, Rating and Valuation (IRRV)**
Cyfeiriad 5th Floor, Northumberland House, 303-306 High Holborn, London WC1V 7JZ
Ffôn 020 7831 3505
E-bost enquiries@irrv.org.uk
Gwefan www.irrv.net
- **Careers Wales - Welsh Apprenticeships**
Ffôn 0800 028 4844
Gwefan ams.careerswales.com/
- **People Exchange Cymru (PEC)**
Public sector recruitment portal for Wales
E-bost peopleexchangecymru@gov.wales
Gwefan www.peopleexchangecymru.org.uk/home

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Gwerthwr Tai
- Aseswr Ynni Cartref
- Swyddog Atal Digartrefedd
- Syrfëwr Meintiau Cynorthwyol
- Cartograffydd
- Rheolwr Ystadau
- Swyddog Tai
- Syrfëwr Hydrograffig
- Syrfëwr Tir

- Syrfêwr Technegol
- Syrfêwr Gwledig
- Syrfêwr Mwynau/Cloddio
- Syrfêwr Datblygu
- Syrfêwr Meintiau
- Cynllunydd Tref
- Staff Cymorth Cynllunio Trefol
- Arwerthwr
- Cynorthwy-ydd Tai
- Syrfêwr
- Amcangyfrifwr
- Trafodwr Gwerthiannau
- Modelydd Trafnidiaeth